Senedd Cymru
Ymchwil y Senedd

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Adroddiad monitro

Ionawr 2023

Cynnwys

1. Cyflwyniad 3

2. Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE 3

3. Alinio ac ymwahanu 5

4. Cysylltiadau rhynglywodraethol 5

5. Deddf Marchnad Fewnol y DU 6

6. Fframweithiau cyffredin 7

7. Deddfwriaeth 8

Deddfwriaeth Llywodraeth Cymru 8

Deddfwriaeth y DU 8

Deddfwriaeth yr Alban 9

Cydsyniad deddfwriaethol 9

8. Y cyfansoddiad 11

Comisiwn y Cyfansoddiad 11

Y Comisiwn ar Ddyfodol y DU 11

Annibyniaeth yr Alban 12

9. Diwygio'r Senedd ac etholiadau 12

10. Cyfiawnder 13

Atodiad: Geirfa 15

Cyflwyniad

Mae gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gylch gwaith eang sy'n cwmpasu amrywiaeth o feysydd. Bwriad yr adroddiad monitro hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor am ddatblygiadau polisi allweddol sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod hyd at 11 Ionawr 2022.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y materion hyn ac unrhyw gamau y mae'n dymuno eu cymryd wrth ymateb iddynt. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi er mwyn rhoi gwybod i randdeiliaid am rai o'r materion y mae'r Pwyllgor wrthi'n eu trafod ar hyn o bryd.

Mae rhestr o dermau allweddol wedi'i chynnwys fel Atodiad.

Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE

O ran Protocol Gogledd Iwerddon, cytunodd y DU a'r UE ar ffordd ymlaen o ran mynediad yr UE at systemau TG y DU at ddiben rhannu data masnach. Maent yn cytuno bod angen datrys amrywiaeth o faterion hollbwysig eraill o hyd.

Mae datganiad ar y cyd yn esbonio sut y daethpwyd i gytundeb ar ffordd ymlaen ar gyfer mynediad yr UE at systemau TG y DU at ddibenion rhannu data masnach. Mae hyn yn cael ei ddisgrifio fel rhagofyniad ar gyfer datblygu ymddiriedaeth a rhoi sicrwydd, ac yn rhoi sylfaen newydd ar gyfer trafodaethau rhwng yr UE a'r DU."

Mae'r datganiad yn tanlinellu ymrwymiad y DU a'r UE i Gytundeb Belfast (Cytundeb Gwener y Groglith) tra'n diogelu uniondeb marchnad fewnol y DU a Marchnad Sengl yr UE. Mae'n nodi y bydd timau technegol yr UE a'r DU yn gweithio'n gyflym i ystyried y potensial am atebion mewn gwahanol feysydd ar sail y ddealltwriaeth newydd hon.

Cynhelir cyfarfod arall ar 16 Ionawr i asesu'r cynnydd.

Newyddion eraill yn ymwneud ag ynys Iwerddon:

- Mae adroddiad yn yr Irish Times yn nodi y bydd cyfres o gyfarfodydd, gyda'r nod o adfer trefniadau rhannu pŵer yng Ngogledd Iwerddon, yn cael eu cynnal yr wythnos yn dechrau 9 Ionawr cyn y dyddiad cau cyfreithiol ar 19 Ionawr. Mae Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon,

Chris Heaton-Harris, wedi dweud y bydd yn galw etholiad arall i Gynulliad Gogledd Iwerddon os nad yw'r dyddiad cau hwn yn cael ei fodloni, a rhaid ei gynnal erbyn 13 Ebrill.

- Mae Bil Protocol Gogledd Iwerddon, y gwrthododd y Senedd gydsyniad ar ei gyfer ar 22 Tachwedd, yn aros am ddyddiad ar gyfer y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi.

- Ar 9 Rhagfyr, disgrifiodd Prif Weinidog Cymru effaith y Bil ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE, ac ar gytundebau rhyngwladol yn ehangach. Dywedodd y canlynol:

  …the UK Government's recent willingness to breach international law and to say that that's what they intend to do, and to challenge the TCA, means that there is a cloud of suspicion that hangs around the UK Government's actions in these international arenas. So, I think that's how it intrudes upon UK-EU relations—that the actions of the UK Government in the human rights field will be seen through the lens of its recent behaviour in relation to international matters and the damage that has been done to the reputation of the United Kingdom as a country that, when it enters into an agreement, has every intention of sustaining that agreement.

- Dychwelodd Leo Varadkar fel Taoiseach ar 17 Rhagfyr.

- Mae Arlywydd UDA, Biden, wedi penodi Joe Kennedy III yn Llysgennad Arbennig UDA i Ogledd Iwerddon ar gyfer Materion Economaidd. Mae Mr Kennedy yn gyn-aelod o Dŷ'r Cynrychiolwyr ac yn ŵyr i'r cyn Dwrnai Cyffredinol, Robert F. Kennedy, ac yn or-nai i gyn-Arlywydd UDA John F. Kennedy a'r Seneddwr Ted Kennedy. Mae'r swydd wedi bod yn wag ers 2021.

Mae'r Uchel Lys wedi dyfarnu bod rheolau'r DU ar gyfer dinasyddion Ewropeaidd yn anghyfreithlon o dan y Cytundeb Ymadael.

O dan y rheolau presennol, mae dinasyddion Ewropeaidd sydd â statws preswylwyr cyn sefydlu dros dro yn colli eu hawliau yn awtomatig, gan gynnwys byw a gweithio yn y DU, os nad ydynt yn trosi eu statws yn statws preswylwyr sefydlog parhaol drwy ail gais.

Ar 21 Rhagfyr, dyfarnodd yr Uchel Lys fod y gofyniad i ddinasyddion Ewrop sydd â statws preswylwyr cyn sefydlu gyflwyno ail gais gorfodol er mwyn cael statws

preswylwyr sefydlog yn anghyfreithlon. Mae'r Swyddfa Gartref yn ceisio caniatâd i apelio yn erbyn y penderfyniad.

Mae dros 38,000 o ddinasyddion â statws preswylwyr cyn sefydlu yng Nghymru. Mae Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd yn monitro'r maes hwn ar gyfer y Senedd.

Alinio ac ymwahanu

Mae'r adroddiad ymwahanu diweddaraf gan *UK in a Changing Europe* yn dangos sawl achos sy'n berthnasol i Gymru.

Mae'r adroddiad yn dangos 13 achos o ymwahanu gweithredol (lle mae'r DU neu ran ohoni'n newid ei rheolau), naw o ymwahanu goddefol (lle mae'r UE yn newid ei reolau ac nid yw'r DU yn dilyn), a thri o ymwahanu gweithdrefnol (newidiadau yn y systemau ar gyfer rheoli ymwahanu sy'n bodoli eisoes). Mae'r rhain yn codi ar draws pynciau amrywiol, megis cyfraith yr UE a ddargedwir, Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, cynlluniau rheoli tir amgylcheddol, gwaharddiadau ar werthu mawn yn Lloegr, datgoedwigo mewn cadwyni cyflenwi a masnach gyda Seland Newydd.

Mae'r DU a'r UE yn ystyried camau cyfreithiol yn erbyn ei gilydd am achosion honedig o dorri'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Mewn adroddiad yn y Telegraph nodwyd bod swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd wedi dweud wrth Senedd Ewrop fod y Comisiwn yn ystyried cymryd camau cyfreithiol yn erbyn y DU mewn perthynas â gollyngiadau dŵr gwastraff heb ei drin yn y Sianel a Môr y Gogledd. Gellir dod o hyd i ddadansoddiadau yn adroddiad diweddaraf *UK in a Changing Europe*.

Lansiodd Llywodraeth y DU achos tor-rheolau yn erbyn yr UE ym mis Awst 2022 oherwydd oedi mewn perthynas â chyfranogiad y DU yn rhaglenni ymchwil a datblygu'r UE, gan gynnwys Horizon Europe.

Cysylltiadau rhynglywodraethol

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Cyngor y Prif Weinidog a Phenaethiaid y Llywodraethau Datganoledig ar 10 Tachwedd yn Blackpool.

Roedd y Prif Weinidog yn bresennol yn y cyfarfod yn rhithwir. Roedd Prif Weinidog y DU a Phrif Weinidog yr Alban yn bresennol. Cyhoeddwyd datganiad o'r cyfarfod

a nododd fod y Cyngor wedi trafod yr argyfwng costau byw, effaith chwyddiant cynyddol a'r GIG. Roedd y Prif Weinidog hefyd yn bresennol yn rhithwir yn y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Cyhoeddwyd datganiad yn dilyn y cyfarfod. Dyma gyfarfod cyntaf y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig a gadeiriwyd gan Brif Weinidog y DU ers 15 mlynedd.

Croesawodd y Prif Weinidog yr ymgysylltu, ond nododd na chafwyd cyfarfodydd pellach. Dywedodd Mr Drakeford ei fod eisiau ymgysylltu rheolaidd, rhagweladwy gan Lywodraeth y DU, a bod angen i'r cytundeb rhynglywodraethol newydd gael ei weithredu'n iawn.

Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 5 Rhagfyr, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw, nad yw'r broses anghydfod rhynglywodraethol wedi'i defnyddio eto. Rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol yr enghraifft o anghydfod cymhwysedd dros Fil fel rhywbeth a allai o bosibl fynd drwy'r broses anghydfodau newydd.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hadroddiad chwarterol diweddaraf ar gysylltiadau rhynglywodraethol ym mis Rhagfyr.

Mae'r adroddiad yn nodi y cynhaliwyd pum cyfarfod rhwng pedair Llywodraeth y DU rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2022. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys astudiaeth achos fer o gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar bolisïau cyfiawnder.

Deddf Marchnad Fewnol y DU

Cwblhaodd Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) ei hynt drwy'r Senedd ar 6 Rhagfyr 2023.

Daeth cyfnod hysbysu pedair wythnos y Bil i ben ar 3 Ionawr 2023 gyda'r Cwnsler Cyffredinol yn cadarnhau na fyddai'n cyfeirio'r Bil i'r Goruchaf Lys.

Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau ei bwriad i wahardd cyllyll a ffyrc, platiau a hambyrddau plastig untro a ddefnyddir ar gyfer cludfwyd. Ni fydd y gwaharddiad yn cynnwys eitemau a werthir mewn siopau neu archfarchnadoedd, a fydd yn cael sylw drwy ddulliau eraill yn ôl Llywodraeth y DU.

Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl). Mae'r Bil ar gyfer Lloegr yn unig ond mae Llywodraeth Cymru yn dadlau ei fod yn effeithio ar ddeddfwriaeth Cymru oherwydd darpariaethau Marchnad Fewnol y DU.

Gosododd Llywodraeth Cymru gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil ar 8 Rhagfyr 2022. Barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil oherwydd bydd effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU yn golygu y bydd y darpariaethau yn y Bil yn caniatáu gwerthu a marchnata Organebau Wedi'u Bridio'n Fanwl yng Nghymru.

Gwnaeth Swyddfa'r Farchnad Fewnol (OIM) ymateb i argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi ynghylch gweithrediad swyddogaethau Swyddfa'r Farchnad Fewnol o dan Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020.

Mae hyn yn cynnwys ymateb i argymhelliad y Pwyllgor y dylai'r Swyddfa, wrth edrych ar wahaniaethau, egluro sut y mae'n ystyried annibyniaeth polisïau datganoledig wrth gynghori ac asesu effaith gwahaniaethau polisi.

Fframweithiau cyffredin

Cyhoeddodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd ei adroddiad ar saith fframwaith cyffredin o fewn ei gylch gwaith.

Mae'r adroddiad yn gwneud 46 o argymhellion ar draws y fframweithiau cyffredin a ystyriwyd ganddo. Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion trawsbynciol sy'n galw am newidiadau ar draws yr holl fframweithiau, fel gwella'r broses sicrhau ansawdd ar gyfer pob fframwaith ac argymhellion penodol ar gynnwys fframweithiau unigol. Mae'r argymhellion trawsbynciol yn cynnwys galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i sicrhau na fydd y fframweithiau 'yn arwain at wanhau'r trefniadau o ran ymgynghori â'r cyhoedd a chraffu seneddol wrth lunio polisïau neu'r broses ddeddfwriaethol'.

Deddfwriaeth

Deddfwriaeth Llywodraeth Cymru

Mae pum Bil yn cael eu hystyried gan y Senedd, y mae tri ohonynt yn eu cyfnodau cychwynnol, un yng nghyfnod 2, ac un wedi bod drwy Gyfnod 4.

- Cyflwynwyd **Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)** ar 20 Medi, ac mae wedi bod drwy Gyfnod 4.
- Cyflwynwyd y **Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)** ar 7 Mehefin, ac mae yng Nghyfnod 2 ar hyn o bryd.
- Cyflwynwyd **Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)** ar 4 Gorffennaf, ac ar hyn o bryd mae'n mynd drwy'r Cyfnod Ystyriaeth Gychwynnol.
- Cyflwynwyd **Bil Amaethyddiaeth (Cymru)** ar 26 Medi, ac mae'n mynd drwy broses graffu Cyfnod 1 ar hyn o bryd.
- Cyflwynwyd **Bil Bwyd (Cymru)** fel Bil Aelod o'r Senedd gan Peter Fox AS ar 17 Tachwedd. Mae'r Bil bellach yn mynd drwy broses graffu Cyfnod 1.

Deddfwriaeth y DU

Mae'r Bil Ysgolion wedi'i ddileu gan Lywodraeth y DU.

Er y byddai'r Bil wedi effeithio'n bennaf ar Loegr yn unig, roedd cydsyniad y Senedd yn cael ei geisio ar gyfer un gwelliant i'r Bil. Bydd y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn cael ei dynnu'n ôl yn awr.

Cyflwynwyd y Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Lleiaf) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Ionawr 2023.

Byddai'r Bil yn rhoi'r pŵer i Ysgrifennydd Gwladol y DU gyflwyno lefelau gwasanaeth lleiaf mewn rhai gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau iechyd a gwasanaethau tân ac achub. Nid yw Llywodraeth y DU yn credu y bydd angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil hwn, gan fod cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol yn feysydd polisi a gadwyd yn ôl.

Mewn ymateb i'r Bil, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw, ei fod yn "ymosodiad na ellir ei gyfiawnhau ar hawliau gweithwyr ac undebau llafur" a "a fydd yn gwneud niwed parhaol i

gysylltiadau diwydiannol ledled y DU ac yn ymyrryd â gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru".

Deddfwriaeth yr Alban

Pasiodd Bil Diwygio Cydnabod Rhywedd (yr Alban) ei gyfnodau olaf yn Senedd yr Alban ar 22 Rhagfyr 2023.

Mae'r ddeddfwriaeth yn symleiddio'r broses ar gyfer cydnabod rhywedd yn gyfreithiol yn yr Alban. Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud sylwadau sy'n awgrymu ei bod yn ystyried rhwystro'r gyfraith ar y sail bod deddfwriaeth cydraddoldeb yn faes polisi a gadwyd yn ôl. I wneud hyn byddai'n rhaid iddi roi gorchymyn o dan Adran 35 o Ddeddf yr Alban 1998, a fyddai'n gwahardd Llywydd yr Alban rhag cyflwyno'r Bil i gael Cydsyniad Brenhinol. Dyma fyddai'r tro cyntaf i orchymyn o'r fath gael ei ddefnyddio yn hanes datganoli. Mae gan Lywodraeth y DU hyd at 19 Ionawr i wneud gorchymyn o'r fath.

Dywedodd y Prif Weinidog ei fod wedi ei "synnu gan ymateb Llywodraeth y DU" i'r ddeddfwriaeth, ac "os oes unrhyw un yn cael tystysgrif cydnabod rhywedd yn yr Alban ac yna'n dod i Gymru, bydd y dystysgrif honno yn cael ei chydnabod yma ar gyfer yr holl ddibenion y byddech yn disgwyl iddi gael ei chydnabod ar eu cyfer."

Cydsyniad deddfwriaethol

Mae memoranda cydsyniad deddfwriaethol bellach wedi'u gosod ar gyfer 12 Bil newydd yn y DU ers Araith y Frenhines ym mis Mai.

Mae hyn yn mynd â chyfanswm y memoranda cydsyniad deddfwriaethol a memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol yn y Chweched Senedd i 69 ar draws 31 o Filiau'r DU.

O'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai'r Senedd atal cydsyniad i'r cyfan neu ran o'r Biliau a ganlyn:

- Bil Protocol Gogledd Iwerddon;
- Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio;
- y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd);
- y Bil Caffael;
- Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio); a'r

- Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl).

Yn dilyn gwelliannau i'r Bil, mae Llywodraeth Cymru bellach yn argymell bod y Senedd yn cydsynio i Fil Banc Seilwaith y DU.

Mae'r tabl isod yn dangos sawl cymal ym mhob un o Filiau gweithredol y DU sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn cydsyniad. Mae'r tabl hwn yn cyfeirio at y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol fel y'i gosodwyd, ac nid at unrhyw femoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol ar ôl hynny.

Bil	Nifer y cymalau
Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)	28
Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol	2
Bil Prisiau Ynni	5
Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl)	Amherthnasol[1]
Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio	31
Bil Protocol Gogledd Iwerddon	26
Bil Diogelwch Ar-lein	1
Bil Caffael	103
Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)	22
Bil Esgyll Siarcod	3
Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)	31 (dau gymal arall y "gallai" fod angen cydsyniad ar eu cyfer)
Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd).	3
Bil Banc Seilwaith y DU	9
Cyfanswm:	268

[1] Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y Bil cyfan am resymau'n ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y DU.

Rhoddodd Arweinydd Tŷ'r Cyffredin, Penny Mordaunt, dystiolaeth i Bwyllgor Gweithdrefn Tŷ'r Cyffredin ar 28 Tachwedd. Gofynnwyd i Ms Mordaunt am y broses memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac a fyddai'n cefnogi nodi'n gliriach mewn nodiadau esboniadol a oes angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol. Dywedodd Ms Mordaunt y byddai'n cefnogi hyn, ac ychwanegodd:

> *Mae sut yr ydym yn gweithio gyda'r Gweinyddiaethau datganoledig yn bwysig, fel y mae'r gwasanaeth a ddarparwn i'r Aelodau yma o ran pobl yn gallu deall beth yw'r prosesau.*

Dywedodd Ms Mordaunt ei bod wedi gweld y broses memoranda cydsyniad deddfwriaethol ac yn deall y rhwystredigaethau, gan nodi y byddent yn dymuno ei gwella lle bo modd.

Y cyfansoddiad

Comisiwn y Cyfansoddiad

Cyhoeddodd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru adroddiad interim ar 7 Rhagfyr 2022.

Rhoddodd yr adroddiad drosolwg o'r gwaith y mae'r Comisiwn wedi'i wneud hyd yn hyn, ei ddadansoddiad o statws cyfansoddiadol presennol Cymru, ac amlinelliad o'r opsiynau y bydd yn eu harchwilio ar gyfer y dyfodol yng ngham nesaf ei waith.

Cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ei fwriad i drefnu datganiad yn y cyfarfod llawn ar yr adroddiad yn y Flwyddyn Newydd.

Y Comisiwn ar Ddyfodol y DU

Ar 5 Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Plaid Lafur y DU adroddiad ei Chomisiwn ar Ddyfodol y DU.

Cadeiriwyd y Comisiwn gan y cyn Brif Weinidog Llafur Gordon Brown ac amlinellodd 40 o argymhellion ar gyfer newid, gan gynnwys diwygiadau i Dŷ'r Arglwyddi, datganoli pellach ar draws y DU a chynigion i ddiogelu a gwella cyfansoddiad y DU.

Annibyniaeth yr Alban

Mae Goruchaf Lys y DU wedi dyfarnu'n unfrydol bod y pŵer i ddeddfu ar gyfer ail refferendwm ar annibyniaeth yr Alban yn bŵer a gadwyd yn ôl.

Gwnaeth y dyfarniad, a roddwyd ar 23 Tachwedd, wrthod dadl Llywodraeth yr Alban bod unrhyw effeithiau ymarferol y tu hwnt i ganfod barn pobl yr Alban yn dybiannol, canlyniadol ac anuniongyrchol, ac na ddylai'r llys eu hystyried. Dywedodd y llys y byddai ail refferendwm annibyniaeth yn ddigwyddiad gwleidyddol pwysig, hyd yn oed pe na bai canlyniadau cyfreithiol uniongyrchol i'r canlyniad, a hyd yn oed pe na bai Llywodraeth y DU wedi gwneud unrhyw ymrwymiad gwleidyddol i weithredu arno.

At hynny, dyfarnodd y llys hefyd fod gan Fil arfaethedig yr Alban ar ail refferendwm annibyniaeth fwy na chysylltiad llac neu ganlyniadol â materion a gadwyd yn ôl i Undeb yr Alban a Lloegr a sofraniaeth Senedd y DU, a'i fod felly'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl ac sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol Senedd yr Alban.

Mewn ymateb i'r dyfarniad, dywedodd Prif Weinidog yr Alban, Nicola Sturgeon, y byddai'r SNP yn trin etholiad cyffredinol nesaf y DU fel 'refferendwm' ar annibyniaeth i'r Alban.

Diwygio'r Senedd ac etholiadau

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cyhoeddi ei ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd ym mis Rhagfyr.

Yn yr adroddiad, bu'r Pwyllgor yn ystyried yr argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig a oedd yn berthnasol i'w gylch gwaith. Daeth i'r casgliad a ganlyn:

- Mewn Senedd fwy o faint â 96 o Aelodau, byddai'n rhesymol cynyddu uchafswm nifer Gweinidogion Cymru o 12 i 17 (ac eithrio'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol), gyda mecanwaith ar gyfer cynnydd pellach i 19 drwy is-ddeddfwriaeth (yn amodol ar bleidlais o'i blaid gan y Senedd).
- Mewn Senedd fwy o faint, dylid cynyddu uchafswm nifer y Dirprwy Lywyddion o un i ddau. Os yw'n ymarferol, ni ddylai'r ail Ddirprwy Lywydd berthyn i'r un grŵp gwleidyddol â'r Dirprwy Lywydd arall neu'r Llywydd.

- Dylid newid teitlau Saesneg y Dirprwy Lywydd a'r Llywydd i'r Llefarydd a'r Dirprwy Lefarydd. Dylid sefydlu'r teitlau Cymraeg Llywydd a Dirprwy Lywydd mewn deddfwriaeth sylfaenol.

- Rhoddir ystyriaeth bellach i fater Aelodau yn newid pleidiau o dan y system etholiadol rhestr gaeedig a argymhellir. Ni ddylai'r ddeddfwriaeth ddiwygio gynnwys unrhyw ddarpariaethau sy'n arwain at ganlyniadau i Aelodau mewn perthynas â'r mater hwn.

Mae'r rheoliadau sydd eu hangen i weithredu prawf adnabod ar gyfer pleidleiswyr mewn etholiadau a gadwyd yn ôl bellach wedi pasio'r ddau Dŷ yn Senedd y DU, fel rhan o Ddeddf Etholiadau'r DU 2022.

Ni fydd hyn yn effeithio ar etholiadau'r Senedd nac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, ond bydd yn effeithio ar seddi Cymru yn Etholiadau Cyffredinol y DU, yn ogystal ag etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu cyflwyno prawf adnabod ar gyfer pleidleiswyr, ac mae wedi rhybuddio am ganlyniadau anfwriadol posibl megis drysu pleidleiswyr ac ymgeiswyr, yn ogystal â chymhlethdod i weinyddwyr.

Cyfiawnder

Cyhoeddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ddatganiad ar y cyd i nodi Diwrnod Rhyngwladol Hawliau Dynol**.**

Gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad gyfarfod **â'r Arglwydd Bellamy CB, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ddydd Llun 5 Rhagfyr.**

Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor mynegodd yr Arglwydd Bellamy CB ei gefnogaeth i ddatblygu mecanweithiau rhynglywodraethol ar gyfiawnder.

Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei ymateb llawn **i'r** Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol**. Mae'r ymateb yn cynnwys** £138 miliwn ychwanegol i'w wario **ar gymorth cyfreithiol bob blwyddyn.**

Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi dweud bod ymateb y Weinyddiaeth Gyfiawnder i'r Adolygiad yn methu â mynd i'r afael â'r her a wynebir gan y sector. Ychwanegodd

fod Llywodraeth y DU, drwy fethu â derbyn argymhellion ei hadolygiad annibynnol ei hun, mewn perygl o waethygu system gyfiawnder dwy haen sy'n gadael pobl heb y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi lansio adolygiad i ystyried opsiynau ar gyfer gwella cynaliadwyedd y system cymorth cyfreithiol sifil. Bydd yr adolygiad yn cynnwys dadansoddiad allanol o sut mae pobl mewn angen yn cael mynediad at gymorth, asesiadau o sut mae systemau'n gweithio mewn gwledydd eraill tebyg, a data pellach ar sut y ceir mynediad i gymorth cyfreithiol sifil a sut y caiff ei ddarparu.

Atodiad: Geirfa

Fframwaith ar ôl Brexit: termau allweddol

Rhwymedigaethau rhyngwladol	Dyletswyddau ac ymrwymiadau rhyngwladol y DU
Cytundebau masnach	Sefydlu trefniadau masnachu newydd rhwng y DU a gwledydd eraill
Cytundebau rhyngwladol	Cytundebau rhwng y DU a gwledydd neu sefydliadau eraill
Cytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE	Sefydlu'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE
Cytundeb Ymadael y DU a'r UE	Gosod telerau ymadawiad y DU o'r UE
Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon	Rhan o'r Cytundeb Ymadael i osgoi ffin galed ar ynys Iwerddon
Deddf yr UE (Ymadael) 2018	Trosi cyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig, yn atal deddfau newydd yr UE rhag cael effaith awtomatig yn y DU ac yn rhoi pwerau i Weinidogion gywiro'r llyfr statud ar ôl ymadael â'r UE
Deddf yr UE (Cytundeb Ymadael) 2020	Gweithredu'r Cytundeb Ymadael
Deddf yr UE (y berthynas yn y dyfodol) 2020	Gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu
Deddf Marchnad Fewnol 2020	Sefydlu rheolau newydd ar gyfer rheoleiddio nwyddau, gwasanaethau a chymwysterau ledled y DU
Fframweithiau Cyffredin	Sefydlu fframweithiau ledled y DU ar gyfer rhai meysydd a lywodraethwyd yn flaenorol gan yr UE
Gweithredu rheoliadau	Pasio rheoliadau yn y Senedd neu Senedd y DU i weithredu'r trefniadau newydd
Cywiro rheoliadau	Pasio rheoliadau yn y Senedd neu Senedd y DU i sicrhau bod deddfau'r UE a ddargedwir ar ôl ymadael â'r UE yn ymarferol mewn cyd-destun domestig